Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 4 Mehefin 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd– Cynllun Archwilio Allanol 2026 |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu Cynllun Archwilio Allanol 2026 Archwilio Cymru ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 I nodi a rhoi sylwadau ar Gynllun Archwilio Allanol 2026 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Bydd Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfod yr Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno'r Cynllun Archwilio Allanol ar gyfer 2026 a bydd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yn dilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig ar risg. Mae'n cwmpasu'r gwaith archwilio ariannol a pherfformiad.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Y ffi archwilio amcangyfrifedig i gynnwys yr archwiliad o'r datganiadau ariannol a'r gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2026/27 yw £69,832. Mae'r CBC wedi neilltuo cyllid ar gyfer y gwaith hwn yng Nghyllideb 2026/27. Amcangyfrifir hefyd ffi o £25,000 ar gyfer gwaith perfformiad archwilio ar gyfer 2025/26. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn yr adran "Ffi archwilio" o'r cynllun yn Atodiad 1.

## 6. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

6.1 Mae swyddogion Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi cael cyfle i gyflwyno eu sylwadau ar y cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'r pwyllgor.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1 Mae'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2026 yn nodi cyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel archwilydd allanol y CBC.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Allanol 2026

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol ychwanegol yn codi o'r adroddiad blaen hwn. Mae'r Cynllun Archwilio Allanol yn rhan o fframwaith llywodraethu a sicrwydd statudol ehangach y CBC. Bydd angen i'r Is-bwyllgor ystyried a yw'r dull arfaethedig yn glir ac yn ddigonol i gefnogi goruchwyliaeth ac atebolrwydd effeithiol.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.